



Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llechryd nos Lun 3 Mehefin 2019

Presennol: Cadeirydd: Cyng Ken Symmons: Cyngr Steve Kings, Mrs Amanda Edwards, Hywel Davies, Mrs Nicky Redmond, Iwan Davies

CS Clive Davies

Clerc

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Dim.

2. Datgelu Buddiannau Personol

Dim.

3. Materion Personol

Longyfarchwyd y Cyng S Kings a'i wraig ar ddyfarnu cydnabyddiaeth 'Cymydog Da' iddynt.

4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cynigiodd y Cyng Mrs A Edwards y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng S Kings, a chytunwyd.

5. Materion yn Codi

Dim.

6. Ceisiadau Cynllunio

Nid oedd dim wedi eu dwyn ymlaen.

Cynlluniau lle

Dywedodd y CS Clive Davies y byddai canlyniadau'r holiaduron a ddosbarthwyd yn lleol yn cael eu crynhoi ym mis Mehefin. Byddai cyfarfodydd pellach gyda swyddogion CSC a disgwylid y byddai'r broses wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Medi.

LDP2

Dim safleoedd ymgeisio wedi'u cynnig hyd yma.

7. Adroddiad y Cyngorydd Sir

Soniodd y CS Clive Davies am yr argymhellion ynglŷn â ffiniau ar gyfer wardiau'r Cyngor Sir. Byddai Llangoedmor a Beulah yn ward o ddau Gynghorydd, a'r Ferwig yn ymuno ag Aber-porth. Roedd wedi cyfarfod â thîm datblygu CSC a gobeithiai fod rhwydwaith gweinyddol yn cael ei lunio ar lefel Sirol a fyddai'n helpu gwella economi'r rhanbarth. Roedd wedi cael amrywiol gyfarfodydd ynglŷn â materion cynllunio a phriffyrd yn y ward. Roedd wedi ei enwebu'n bennaeth y Pwyllgor Trwyddedu.

Dywedodd y Cyng Mrs N Redmond nad oedd y cais ar-lein am drwydded digwyddiadau dros dro wedi gweithio ers dwy flynedd, a gofynnodd a allai'r CS Clive Davies ymchwilio i hyn.

Soniodd y CS Clive Davies am yr ymateb ynglŷn â chyflymdra a damweiniau wrth groesffordd Croes-y-Llan a byddai'n codi mater y llain borfa yn Preseli View eto.

8. Cyllid a Gweinyddu

Taliadau

	Talai	Am	banc		
29.5.19	BHIB Ltd	Yswiriant TALWYD	1149.99		Gostyngiad o 1217.63
23.05.19	LAS recycling Ltd	Bin Olwynion	39.84	DU	
3.06.19	HMRC		71.00		
	S E Davies	Swyddfa yn y cartref 25	25.00		
	J Jamison	Archwiliad Mewnol	75.00		
	Neuadd y Cwrwgl	Hurio'r Ystafell	16.00		
	Eglwys Santes Tudful	Grant/cyfraniad	100.00		Angen cyfeiriad i anfon y grant iddo
	Mr E Rees	Glanhau'r bloc toiledau / cysgodfannau bws.	276.00		
30.06.19	S E Davies	Cyflog	336.36	SO	Dylid ei ganslo erbyn 30.06.19

Cymhwyso cyflog y Clerc

Bwriedir dileu'r archeb sefydlog, yna talu â siec.

Archeb sefydlog a dalwyd	336.36
Swm net y dylid bod wedi'i dalu (newid cod treth)	286.92
Y Clerc i ad-dalu	49.44

Gweddill ar adroddiad y banc

Ar 23 Ebrill 2019 17354.85

Heb sieciau heb eu cyflwyno

64	0.20	Camddarllen archwiliad
	0.20	

Gweddill ar yr adroddiad wedi'i gymhwyso

17354.65 0.90

Llyfr arian parod Gweddill Agoriadol	16240.9
Derbyniadau	1953.69
Taliadau	840.84
Gweddill Dau	17353.75

Ffigurau diwedd blwyddyn

Cytunwyd y dogfennau canlynol gan y Cyngorwyr:

Asesiad risg

Adroddiad Archwiliad Mewnol (dim argymhellion)

Cofrestr Asedion

Mantolen

Adroddiad cyfrifo 18/19

Datganiad llywodraethiant 18/19

GWEITHREDU: paratoi'r wybodaeth ychwanegol a rhoi hysbysiad am hawliau etholwyr fel cyfarwyddiadau'r Archwilydd Allanol GAN: Y Clerc

Cais am drafod ail-gynnwys y weddi fel rhan o gyfarfod y Cyngor Cymuned (sylwi ar gyngor a gafwyd gan ULIC ar 21.05.19). Os na fyddai'r cais yn cael ei ganiatáu, cais am i gyfarfodydd gychwyn am 7.15pm yn y dyfodol i ganiatau ar gyfer gweddiau cyn cychwyn.

Ar ôl trafodaeth cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon copi o'r weddi at bawb iddyn nhw gael gweld a ellid dileu pob cyfeiriad crefyddol.

GWEITHREDU: Anfon copi at bawb GAN: Y Clerc

10. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Ar ôl cyflwyno pryderon y Cyngor am yr arwydd wrth groesfan Croes-y-Llan, roedd CSC wedi cytuno i adolygu'r arwydd presennol. Nid oedd gan CSC ddim cofnod am unrhyw ddamweiniau ar y safle.

11. Amwynderau

Dŵr yn gollwng mewn eiddo gerllaw mewn gwirionedd oedd achos y dŵr oedd yn gollwng y bloc toiledau. Roedd y Cyng S Kings wedi cyfarfod â'r plwmwr yn y toiledau, a thra oedden nhw yno ni welwyd dim dŵr yn amlwg yn gollwng. Roedd y tanciau dŵr yn y man storio yn hen a chytunwyd y dylid gosod rhai newydd yn eu lle. Nodwyd ar gyfer y dyfodol mai meter Neuadd y Cwrwgl oedd y meter ar y chwith ar y llwybr wrth ymyl y toiledau, a'r un ar y dde i'r bloc toiledau..

Bwrdd picnic plant

Roedd hwn yn dal heb ei osod yn y lle chwarae.

Trefnu archwiliad o'r lle chwarae.

Y Cyng S Kings i fynd gyda'r arolygydd.

Cytunwyd y dylai cynrychiolwyr y Pwyllgor gyfarfod â chynrychiolwyr Pwyllgor y Neuadd ynglŷn â chwestiwn y ffin a'r fynedfa i'r parc ceir.

GWEITHREDU: Cysylltu â Chadeirydd y Neuadd GAN: Y Clerc

12. Prosiectau'n Parhau

Mainc wrth yr Hen Eglwys – nodwyd ar gyfer yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Arwydd Dim Baw Cŵn – cystadleuaeth yr ysgol

Roedd y Pennaeth wedi cytuno y gallai'r plant ddylunio poster. Byddai'r CC yn darparu gwobrau addas i'r oedranau.

13. Digwyddiadau

Cynllun Gwynwch

Roedd nifer dda wedi dod i'r cyfarfod cyhoeddus cyntaf a gawsai ei drefnu, a diolchwyd i'r rheiny a oedd wedi gweithio i ddarparu lluniaeth. Roedd Mr Paul Hendy wedi rhoi cyflwyniad ar baratoi ar gyfer argyfyngau, ac roedd grŵp llywio wedi'i ffurfio. Byddai'r grŵp yn cyfarfod am 7pm ar 13 Mehefin.

Eisteddfod 2020

Cyfarfod cyhoeddus ar 10.06.19 am 7.30pm yn Neuadd y Cwrwgl. Croeso i bawb.

Gwasanaeth y Cofio

Cytunwyd i ddarparu lluniaeth ysgafn wedi'r gwasanaeth yn Neuadd y Cwrwgl.

14. Adroddiadau am Gyfarfodydd

Dim.

15. Gohebiaeth / + Gohebiaeth e-bost

Nodwyd.

Adolygiad o drefniadau etholiadol Sir Ceredigion.

Yr argymhelliad yw uno Llangoedmor a Beulah i greu ward o ddau aelod ar gyfer etholiadau'r Cyngor Sir. Ni fyddai hyn yn effeithio ar ffiniau'r Cyngor Cymuned.

Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 – dydd Sadwrn 29 Mehefin 2019.
Dyweddodd y Cadeirydd y byddai'n rhoi gwybod i'r Clerc a allai ef fod yn bresennol.

16. Cyfnewid Gwybodaeth

Cytunodd y Cyng I Davies i brynu baner newydd y Ddraig Goch ar gyfer postyn y faner.

Gwahoddodd y Cyng Mrs A Edwards y Cynghorwyr i gyd i ddiwrnod cacennau bach y Gymdeithas Altzheimer ar 15 Mehefin.

Dyweddodd y Cadeirydd iddo fod yn bresennol yn seremoni Sefydlu'r Maer yn Aberteifi.

17. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 2.9.19

Gan nad oedd dim gwybodaeth bellach i'w thrafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm